# Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (Gwaith Chwarae Cymru)

Adroddiad blynyddol 2025-2026

## Cyflwyniad

**Mae Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru – Gwaith Chwarae Cymru) yn darparu arweinyddiaeth strategol ac arweiniad arbenigol ar addysg a hyfforddiant gwaith chwarae. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gweithgaredd, y datblygiadau allweddol a'r trafodaethau a gafwyd rhwng mis Mehefin 2025 a mis Mawrth 2026, ac mae'n seiliedig ar gyfarfodydd y cyngor a'r blaengynllun sydd ar y gweill, sydd bellach yn fframio'r blaenoriaethau ar gyfer y sector.**

**Nodyn: yn ystod y flwyddyn hon, cytunodd PETC Cymru i ychwanegu'r is-deitl 'Gwaith Chwarae Cymru' i'w enw er mwyn adlewyrchu'r newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU ac i gyfleu'n fwy effeithiol ei ddiben o ran cefnogi'r sector gwaith chwarae yng Nghymru. Am y rheswm hwn, cyfeirir ato bellach fel PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru).**

## Cyflawniadau allweddol

Un o'r prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn fu'r cynnydd sylweddol yn yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae. Cafodd y safonau drafft ar draws gwahanol lefelau'r gweithlu eu datblygu a'u mireinio drwy ymgysylltiad cryf gan grwpiau ymgynghorol a grwpiau ysgrifennu, ochr yn ochr ag ymgynghoriad â'r sector drwy weminarau a thrafodaeth ehangach. Mae symleiddio'r safonau a'u cysoni â phrentisiaethau yn garreg filltir fawr ar gyfer y sector. Bydd y NOS terfynol yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi yn ystod haf 2026.

Mae marc ansawdd gwaith chwarae Chwarae Cymru, *Chwarae o Safon*, wedi symud ymlaen o'r cam datblygu i gael ei lansio ac mae bellach yn y cam gweithredu cynnar. Mae treialu gweithgareddau wedi dangos bod diddordeb cryf ar draws lleoliadau gwaith chwarae a lleoliadau nad ydynt yn rhai gwaith chwarae, ac mae'r fframwaith yn cefnogi'r gwaith o wella ansawdd a chydnabyddiaeth allanol. Archwiliwyd materion yn ymwneud â chynaliadwyedd, cost a'r gallu i ehangu, ynghyd â gwaith parhaus i ddatblygu modelau cyflawni a phartneriaeth priodol.

Mae gweithgaredd darparu hyfforddiant a datblygu'r gweithlu wedi parhau i gynyddu, gyda chefnogaeth partneriaethau sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg ledled Cymru a thu hwnt. Mae niferoedd arwyddocaol o ddysgwyr wedi ymgysylltu â hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae, ac mae'r seilwaith yn parhau i ehangu, gan gynnwys datblygu canolfannau cymeradwy ac ehangu llwybrau i ymuno â'r gweithlu.

## Datblygu cyfeiriad strategol

Un o'r datblygiadau mawr eleni fu llunio blaengynllun a chytuno arno er mwyn llywio gwaith PTEC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru). Mae hyn wedi esblygu drwy drafodaethau ar draws nifer o gyfarfodydd ac mae'n darparu fframwaith clir ar gyfer blaenoriaethau'r dyfodol.

Mae'r prif feysydd a nodwyd yn cynnwys datblygu Fframwaith Sefydlu Gwaith Chwarae i gefnogi gweithwyr newydd sy'n cael eu recriwtio a gwella cysondeb ar draws y gweithlu. Amlygodd trafodaethau cynnar werth posibl fframwaith o'r fath a phwysigrwydd hyblygrwydd, yn enwedig mewn perthynas â darpariaeth dymhorol a sefyllfa wirioneddol y gweithlu.

Bu gwella llwybrau cynnydd drwy gymwysterau, yn enwedig i lefel 3, yn ffocws arwyddocaol, gan gydnabod y risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â chyllid, modelau cyflawni a gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS).

Mae'r blaengynllun hefyd yn amlygu pwysigrwydd:

- adolygu llwybrau cymwysterau
- diweddaru canllawiau a siartiau llif i reolwyr
- cefnogi cysoni â gwaith ieuenctid
- ystyried rôl y gweithlu ehangach a gweithwyr proffesiynol perthynol.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu anghenion uniongyrchol y sector a'r heriau strategol tymor hwy.

## Meysydd trafod allweddol a materion sy'n dod i'r amlwg

Drwy gydol y flwyddyn, mae PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru) wedi ystyried amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar y gweithlu gwaith chwarae. Mae'r trafodaethau wedi amlygu pryderon parhaus ynghylch cynaliadwyedd y trefniadau cyllido, digonolrwydd y gweithlu, a'r rhwystrau i gael mynediad at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu.

### Y prif feysydd trafod

- **Adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwaith chwarae**
  Cynnydd parhaus drwy gydol y flwyddyn, gan symud o ddatblygu'r drafft i ymgynghoriad. Mae'r adolygiad wedi symleiddio'r safonau a chryfhau'r cysondeb â phrentisiaethau, a chafwyd adborth cadarnhaol o bob rhan o'r sector.

- **Fframwaith prentisiaethau gwaith chwarae**
  Datblygiad parhaus gyda momentwm gwell ac ymgysylltiad gan bartneriaid. Amlygodd y trafodaethau gynnydd cadarnhaol a'r angen am gyfeiriad strategol mwy eglur, ochr yn ochr ag ystyriaethau'n ymwneud â diogelu, disgwyliadau o ran cyflawni a chysoni cymwysterau.

- **Cyllid, cynaliadwyedd y gweithlu a chynnydd**
  Pryder parhaus ynghylch y cyllid y tu hwnt i'r rhaglenni presennol, y gallu i recriwtio a chadw dysgwyr, a'r rhwystrau i symud ymlaen i gymwysterau lefel 3. Amlygodd yr aelodau yr angen am lwybrau cynnydd mwy eglur a chynllunio cynaliadwy ar gyfer y gweithlu.

- **Y sefyllfa o ran cymwysterau a sicrwydd ansawdd**
  Gwaith craffu parhaus ar y sefyllfa ehangach yn ymwneud â chymwysterau, gan gynnwys pryderon ynghylch cyflwyno cymwysterau allanol heb ymgynghori â'r sector. Mae PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru) yn parhau i eirioli dros ansawdd, cydlyniad a chyfranogiad priodol mewn prosesau datblygu a dynodi cymwysterau.

- **Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a datblygiadau rheoleiddio**
  Ymgysylltu'n weithredol ag ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Eithriadau i gofrestru gofal plant a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig: newidiadau arfaethedig 2025. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar y goblygiadau ar gyfer darpariaeth mynediad agored, gofynion y gweithlu, a'r angen i sicrhau bod safbwyntiau sy'n benodol i waith chwarae yn cael eu hadlewyrchu mewn polisi.

- **Fframwaith Sefydlu Gwaith Chwarae**
  Archwiliad cynnar o fframwaith sefydlu posibl ar gyfer y gweithlu gwaith chwarae, gan gydnabod yr angen am drefniadau sefydlu cyson sy'n parhau i gynnig hyblygrwydd ar gyfer darpariaeth amrywiol a thymhorol. Mae hyn bellach wedi'i gynnwys yn y blaengynllun.

- **Llwybrau cymwysterau a chanllawiau i reolwyr**
  Cydnabyddiaeth o'r cymhlethdod cynyddol yn y gofynion ar gyfer cymwysterau, yn enwedig mewn perthynas â disgwyliadau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Nododd yr aelodau'r angen am siartiau llif wedi'u diweddaru, canllawiau ac offer ymarferol i gefnogi cyflogwyr a rheolwyr.

- **Cysoni â gwaith ieuenctid a'r gweithlu ehangach**
  Trafodaeth barhaus ynghylch cysoni â llwybrau gwaith ieuenctid a chyfraniad posibl dulliau gwaith chwarae ar draws proffesiynau perthynol. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o rôl PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru) mewn perthynas â'r gweithlu ehangach.

- **Proffil a hyrwyddo gwaith chwarae**
  Archwilio mentrau fel Wythnos Gwaith Chwarae y DU i godi proffil, cefnogi recriwtio a hyrwyddo hunaniaeth y sector, ochr yn ochr â chyfathrebu ehangach a gweithgaredd ymgysylltu.

## Cyd-destun polisi a'r sector

Mae PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru) wedi parhau i gymryd rhan weithredol mewn datblygiadau polisi ehangach, gan gynnwys cyfrannu at ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Gorchymyn Eithriadau. Mae gan y prosesau hyn oblygiadau mawr i'r gofynion yn ymwneud â'r gweithlu, y disgwyliadau o ran cymwysterau a strwythur y ddarpariaeth, yn arbennig mewn perthynas â gwaith chwarae mynediad agored.

Mae'r trafodaethau wedi amlygu'r cyfleoedd a'r risgiau o fewn y datblygiadau hyn, gan gynnwys y posibilrwydd o ddulliau mwy pragmataidd, yn ogystal â phryderon ynghylch eu gweithredu a'r effaith ar ddarparwyr. Mae pwysigrwydd sicrhau bod safbwyntiau gwaith chwarae'n cael eu cynrychioli wrth ddatblygu polisïau wedi cael ei bwysleisio'n gyson.

Mae ymgysylltiad â gweithgaredd polisi a'r sector ehangach hefyd wedi cynnwys cydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, gan gefnogi'r gwaith o sicrhau cysondeb ar draws y meysydd gofal plant, y blynyddoedd cynnar a gwaith ieuenctid.

## Cydweithio a chyflawni

Mae gweithio mewn partneriaeth gref yn parhau i fod yn sail i waith PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru). Mae cydweithio ar draws darparwyr hyfforddiant, awdurdodau lleol, sefydliadau cenedlaethol a phartneriaid y llywodraeth wedi cefnogi datblygiad strategol a darparu gweithgaredd ar lawr gwlad.

Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys parhau i ehangu'r ddarpariaeth hyfforddiant, datblygu llwybrau newydd i waith chwarae, a chydweithio ar fentrau datblygu ymchwil, hyfforddiant a'r gweithlu. Mae'r gweithgaredd ar draws rhanbarthau yn amlygu arloesedd a heriau parhaus, gan gynnwys cyfyngiadau ar gapasiti a phwysau ariannol.

## Uchafbwyntiau aelodau'r cyngor

- **Arolygiaeth Gofal Cymru**
  Ymgysylltiad yn ymwneud â'r broses Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth i'w gwneud yn fwy cymesur ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored. Mae'r ddeialog barhaus wedi amlygu pwysigrwydd cryfhau ymwybyddiaeth a hygyrchedd cymwysterau gwaith chwarae o fewn darpariaeth reoleiddiedig a heb ei rheoleiddio.
- **Gofal Cymdeithasol Cymru**
  Cydweithio parhaus ar ddatblygu'r gweithlu a chysoni ar draws y meysydd blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae. Mae'r datblygiadau allweddol yn cynnwys cwblhau Arolwg Gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar, amlygu'r heriau recriwtio a chadw, a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi'n ymwneud â diogelu, lles ac iechyd meddwl sy'n hygyrch i'r gweithlu gwaith chwarae.
- **Llywodraeth Cymru**
  Ymgysylltiad parhaus â gwaith datblygu polisi cenedlaethol, gan gynnwys ymgynghoriadau ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Gorchymyn Eithriadau, a chyhoeddiad arfaethedig yr adroddiad cynnydd ar yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Mae'r hyfforddiant ar draws y llywodraeth a'r cynnydd yn yr ymgysylltiad â gwaith digonolrwydd chwarae wedi cryfhau proffil chwarae o fewn meysydd polisi ehangach.
- **Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs**
  Parhau i ddarparu rhaglenni hyfforddi a chymorth ar raddfa fawr, gyda nifer sylweddol o ddysgwyr yn datblygu drwy lefel 2 a llwybrau prentisiaeth. Mae datblygiad model Llwybr i Waith Chwarae strwythuredig yn cefnogi gweithwyr newydd i ymuno â'r gweithlu, ochr yn ochr â gwaith parhaus i fanteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael ac ehangu mynediad at hyfforddiant.
- **Playwork Foundation**
  Cymorth parhaus ar gyfer datblygu'r sector drwy weithgaredd llywodraethu, ymgysylltiad proffesiynol ac ymgysylltiad parhaus â gwaith y pedair gwlad, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer yr adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gweithgaredd ychwanegol yn cynnwys cynnal digwyddiadau'r sector a hwyluso cyfleoedd dysgu myfyriol.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
  Darparu hyfforddiant a gweithgaredd datblygu'r gweithlu parhaus, ochr yn ochr â mentrau lleol fel cymorth ar gyfer Ysgolion Chwarae-Gyfeillgar a phrosiectau ymgysylltu cymunedol. Mae'r gweithgaredd yn adlewyrchu darpariaeth gref a heriau parhaus sy'n gysylltiedig â chyllid a chapasiti'r gweithlu.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
  Integreiddio'r gwasanaeth yn sylweddol gan ddwyn ynghyd wasanaethau chwarae, ieuenctid a gofal plant mewn un strwythur, ochr yn ochr â chomisiynu darpariaeth mynediad agored a chyllid amlflwyddyn i gefnogi cynaliadwyedd a sefydlogrwydd y gweithlu.

- **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/rhanbarth gogledd Cymru**
  Cynyddu integreiddio chwarae o fewn gwaith cynllunio lles rhanbarthol a strwythurau byrddau gwasanaeth cyhoeddus, gan gryfhau sefyllfa strategol chwarae. Mae gwaith parhaus yn amlygu'r pwysau o ran arloesedd a chapasiti, yn enwedig mewn perthynas ag argaeledd hyfforddiant a datblygiad y gweithlu.

- **Canolfannau a phartneriaid cyflawni Agored Cymru**
  Ehangu model y ganolfan gymeradwy, gyda phartneriaethau sy'n cynyddu ar draws y meysydd addysg bellach ac uwch, awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae'r ddarpariaeth yn parhau i arallgyfeirio, gan gynnwys dulliau dysgu cymysg a chyrhaeddiad daearyddol ehangach.

## Edrych i'r dyfodol

Yn y dyfodol, bydd PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru) yn canolbwyntio ar:

- gwblhau a gweithredu'r NOS ar gyfer gwaith chwarae
- gwneud cynnydd o ran blaenoriaethau'r blaengynllun
- parhau i gefnogi adolygu cymwysterau a phrentisiaethau a'u datblygu.

Bydd angen rhoi sylw parhaus i gyllid, cynaliadwyedd y gweithlu ac eglurder y llwybrau cymwysterau, ochr yn ochr â chefnogi darparwyr i ymateb i newidiadau polisi a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol wedi'u diweddaru.

Bydd PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru) hefyd yn parhau i gryfhau ei waith cyfathrebu, ei dryloywder a'i rôl arweinyddiaeth yn y sector, gan gynnwys y defnydd o adroddiadau blynyddol a gweithgaredd ymgysylltu i gefnogi dealltwriaeth gyffredin o'r cynnydd a'r blaenoriaethau.

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gyda chymorth AI.

**Paratowyd gan Chwarae Cymru ar ran PETC Cymru (Gwaith Chwarae Cymru).**

Chwarae Cymru Play Wales

Awst 2026